OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 255 (Cy.27)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*9 Chwefror 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*11 Chwefror 2009*
Yn dod i rym - -	*7 Mawrth 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 45(1)(d), (9) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 7 Mawrth 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2009.

Eiddo y mae rhwymedigaeth i dalu arno ardrethi eiddo heb ei feddiannu

2. Yn rheoliad 4(e) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008(**3**) yn lle "£2,200" rhodder "£15,000".

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

9 Chwefror 2009

(**1**) 1988 p.41.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a geir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672, erthygl 2, Atodlen 1). Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2008/2499 (Cy.217).